

Crynodeb gweithredol

Nododd yr Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol ein strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau band-eang cyflym a dibynadwy, symud tuag at ddyfodol ffibr, a diogelwch parhaus i ddefnyddwyr bregus. Un o elfennau allweddol ein strategaeth yw cystadleuaeth effeithiol ac ymyriadau rheoleiddiol effeithiol er mwyn arwain at gymhellion ar gyfer buddsoddi, cynyddu ansawdd, cynnig rhagor o ddewis a sicrhau prisiau is i ddefnyddwyr a busnesau.

- 1.1 O ystyried ei safle yn y farchnad, bydd Openreach yn parhau i chwarae rôl allweddol yn sicrhau'r canlyniadau gwell hyn i lawer o ddefnyddwyr a busnesau. Ym mis Chwefror 2016, mynegon ein pryder nad yw'r model gwahanu swyddogaethau presennol wedi gwneud digon i gael gwared ar allu BT i wahaniaethu yn erbyn ei gystadleuwyr: mae'r model gwahanu swyddogaethau yn dal yn rhwym i gyfyngiadau cynhenid strwythur corfforaethol BT Group.
- 1.2 Er bod y model presennol yn cyfyngu ar allu BT i weithredu ar unrhyw gymhelliant i wahaniaethu wrth ddarparu gwasanaethau presennol, cododd pryder fod integreiddio fertigol Openreach o fewn BT Group yn golygu bod penderfyniadau strategol newydd o ran buddsoddi yn cael eu gwneud ar lefel grŵp. Roedd ymatebwyr ein hadolygiad o'r farn nad oes gan gwsmeriaid cyfanwerthol Openreach yr un cyfle â'r rheini o fewn BT i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y rhwydwaith. Er enghraifft, gwnaeth BT Group y penderfyniad strategol cychwynnol i fuddsoddi mewn band-eang gwibgyswllt, ac yna wedi mabwysiadu technoleg benodol cyn ymgynghori â chwsmeriaid Openreach. Mae risg y gallai penderfyniadau a wneir yn y modd hwn ochri â buddiannau adrannau adwerthu is i lawr BT dros fuddiannau darparwyr is i lawr sy'n cystadlu.

Er mwyn datrys y broblem hon, nodon yr angen i Openreach gael rhagor o annibyniaeth i wneud penderfyniadau gweithredol a strategol, gan ystyried anghenion ei holl gwsmeriaid yn gytbwys.

Heb ymyriad effeithiol i fynd i'r afael â'r pryder hwn o ran cystadleuaeth, mae risgiau i ddefnyddwyr a busnesau yn bosibl. Gallai hyn danseilio'r cymhelliant i gyfranwyr y diwydiant fuddsoddi ac, yn y pen draw, ddylanwadu ar gost, ansawdd ac argaeledd y gwasanaethau mae defnyddwyr a busnesau yn eu cael.

Mae hysbysiad gwirfoddol BT yn mynd i'r afael yn ddigonol â'n pryderon o ran cystadleuaeth, gan ei fod wedi adeiladu'n sylweddol ar hysbysiad mis Gorffennaf 2016

Ar 18 Gorffennaf 2016, cyflwynodd BT hysbysiad gwirfoddol i Ofcom i aildrefnu ac ehangu'r model gwahanu swyddogaethau presennol. Yn ein hymgyngoriad dyddiedig 26 Gorffennaf 2016, nid oeddem o'r farn fod yr hysbysiad hwn yn mynd i'r afael yn ddigonol â'n pryderon o ran cystadleuaeth. Amlygon dair nodwedd gyffredinol a oedd, at ei gilydd, yn golygu nad oedd yr hysbysiad yn mynd yn ddigon pell. Dyma'r tair nodwedd:

- statws Openreach fel un o adrannau BT plc, yn hytrach na fel endid cyfreithiol ar wahân, diffyg unrhyw gyfarwyddwyr cwmni ffurfiol ar bwllgor Openreach yn sgil hynny, a dim achosion o drosglwyddo cyflogeion;

- lefelau uchel o gyfraniad a chyfranogiad uniongyrchol gan Brif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol BT Group i reolaeth Openreach; a
- gallu'r swyddogion hyn i gael gafael ar wybodaeth gyfrinachol am gwsmeriaid yn ystod proses ymgynghori gyfrinachol Openreach rhwng Openreach a chystadleuwyr BT.

Ar 10 Mawrth 2017, rhoddodd BT wybod i ni am ymrwymadau gwirfoddol o dan Adran 89C Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddiwygio Openreach ymhellach, gan adeiladu ar ei hysbysiad ym mis Gorffennaf 2016.

Ar y cyfan, mae hysbysiad diweddaraf BT yn wahanol iawn i'w safiad blaenorol ym mis Gorffennaf 2016. Mae Ffigur 1 isod yn crynhoi datblygiad safiad BT ar draws elfennau allweddol ei hysbysiad.

Ffigur 1 Cymharu hysbysiadau BT ym mis Gorffennaf 2016 a mis Mawrth 2017

Pwnc	Hysbysiad Gorffennaf 2016	Hysbysiad presennol BT
Corffori	Openreach yn parhau fel un o unedau busnes BT plc	Corffori Openreach ar wahân, gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr ffurfiol, annibynnol ar y cyfan, gyda dyletswydd i drin pob cwsmer yn gytbwys
Penodi Prif Weithredwr ac atebolrwydd	Prif Weithredwr Openreach yn atebol i Brif Weithredwr BT Group plc ac wedi'i benodi ganddo	Bwrdd Openreach yn penodi Prif Weithredwr Openreach (feto derfynol dryloyw yn unig ar gael i BT Group), a'i atebolrwydd i BT Group wedi'i gyfyngu i sicrhau llywodraethu ymarfer gorau (gan gynnwys rhwymedigaethau cyfreithiol)
Cynlluniau strategol a gweithredol	Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol BT Group yn adolygu cynlluniau gweithredu a strategol Openreach cyn Bwrdd Openreach	Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol BT Group yn adolygu cynlluniau gweithredu a strategol ar yr un pryd â Bwrdd Openreach
Pobl	Dim achosion o drosglwyddo cyflogeion	32,000 o gyflogeion yn cael eu trosglwyddo i Openreach Limited (yn amodol ar Warrant y Goron, Caniatâd yr Ymddiriedolwyr ac ymgynghori â chyflogeion)
Masnachu	Masnachu yn dal i fod yn rhan o BT plc	Openreach Limited yn gyfrifol am y berthynas â chwsmeriaid ar ran BT plc
Asedau	Dim trefniant cytundebol na throsglwyddiad o hynny er mwyn i Openreach reoli asedau	Trefniant cytundebol sy'n golygu bod Openreach yn rheoli asedau gofynnol ac yn meddu ar hawliau rheoli ar eu cyfer
Ymgynghori â chwsmeriaid	Datgelu gwybodaeth gyfrinachol am gwsmeriaid Openreach i Brif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol BT Group heb ganiatâd y cwsmeriaid	Ni ddatgelir gwybodaeth gyfrinachol am gwsmeriaid Openreach i Brif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol BT Group heb ganiatâd y cwsmeriaid
Polisi cyfrinachedd a masnachol	Rhestr o weithwyr BT Group sy'n gallu cael gafael ar wybodaeth gyfrinachol a dylanwadu ar bolisi masnachol Openreach	Ni all cyflogeion BT Group gael gafael ar wybodaeth gyfrinachol na dylanwadu ar bolisi masnachol fel rheol, gydag eithriadau penodol, a thryloywder i Ofcom

Mae hysbysiad diwygiedig BT yn amodol ar bedwar rhagamod. Tan fydd yr amodau hyn wedi'u bodloni, bydd yr Ymgymeriadau a'r model presennol yn dal yn weithredol. Dyma'r amodau:

- diwygio Gwarant y Goron, sy'n ymwneud â chynllun pensiwn BT ar hyn o bryd, er mwyn parhau i ddiogelu pensiwn cyflogeion Openreach Limited a gorfforir o'r newydd;
- cymeradwyaeth gan Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn BT i Openreach Limited fod yn gyflogwyr sy'n cymryd rhan yng nghynllun pensiwn BT;
- cwblhau'r prosesau ymgynghori o dan TUPE, sy'n angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo cyflogeion; a
- rhyddhau BT o'r Ymgymeriadau, gyda'r ymrwymadau newydd yn cymryd eu lle.

Mae'r newidiadau yn hysbysiad diwygiedig BT wedi mynd i'r afael â'r tair nodwedd hynny yn hysbysiad mis Gorffennaf 2016 a oedd wedi methu mynd yn ddigon pell i sicrhau'r lefel ofynnol o annibyniaeth er mwyn mynd i'r afael â'n pryderon o ran cystadleuaeth.

At ei gilydd, rydym yn credu y dylai hysbysiad BT fynd i'r afael â'r pryderon o ran cystadleuaeth a nodwyd yn yr Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol – yn amodol ar ymrwymiad parhaus BT i'r trefniadau hyn. Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym wedi penderfynu bod hysbysiad diwygiedig BT yn gwneud digon i fynd i'r afael â'n pryderon o ran cystadleuaeth, ac felly nad yw'n angenrheidiol bellach i fwrw ymlaen â hysbysiad ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae ein rhesymau wedi'u nodi yn y ddogfen hon.

Drwy gydol y broses hon, rydym wedi bod o'r farn bod setliad gwirfoddol yn debygol o ddarparu buddion i ddefnyddwyr a busnesau yn gyflymach na fyddai gorfodi rheoliad ffurfiol yn ei wneud. Mae cytuno ar setliad gwirfoddol yn awr hefyd yn lleihau'r ansicrwydd a'r risg fuddsoddi gysylltiedig sy'n wynebu'r diwydiant ar adeg allweddol yn y broses o symud i ddarparu rhagor gyda ffibr.

O ganlyniad, cyhyd â'n bod yn credu bod y trefniadau newydd yn parhau i fynd i'r afael â'n pryderon o ran cystadleuaeth, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â gorfodi ateb rheoleiddiol.

Rydym wedi ystyried hefyd sut byddai'r trefniadau newydd yn gweithio i ddefnyddwyr a busnesau yng Ngogledd Iwerddon, ac yn esbonio hyn yn fanylach yn Adran 3.

Cynnig rhyddhau BT o'r Ymgymeriadau

Yn sgil hysbysiad BT, rydym wedi ystyried a yw'r Ymgymeriadau yn dal i fod yn addas. Yn ein barn ni, dylid rhyddhau BT o'r Ymgymeriadau hyn yn awr. Pan fyddant yn weithredol, bydd yr Ymrwymadau i bob pwrpas yn dyblygu'r gofynion hynny yn yr Ymgymeriadau sy'n dal yn berthnasol, ac yn adeiladu arnynt drwy ddarparu'r annibyniaeth ychwanegol o ran gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol, a rhedeg busnes Openreach, yr ydym ni wedi dymuno ei weld.

Yn amodol ar ymgynghoriad, bydd rhyddhau BT o'r Ymgymeriadau hefyd yn amodol ar BT yn rhoi gwybod i Ofcom bod y tri rhagamod cyntaf wedi cael eu bodloni. Tan

hynny, bydd yr Ymgynghoriadau yn dal yn weithredol. Rydym yn cynnig rhyddhau BT 30 diwrnod ar ôl cael gwybod gan BT bod yr amodau hyn wedi cael eu bodloni.

Bydd monitro'r Ymrwymadau yn barhaus yn allweddol

Bydd monitro effeithiol a chadarn yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod BT ac Openreach Limited yn cydymffurfio â'r trefniadau a nodwyd yn hysbysiad mis Mawrth BT, a bod Openreach yn gweithredu'n fwy annibynnol er budd pob cwsmer.

Bydd Ofcom yn mabwysiadu dull manwl a rhagweithiol o fonitro cydymffurfiaeth BT ac Openreach â'r Ymrwymadau a'r Protocol Llywodraethu. Bydd hyn yn sicrhau bod BT ac Openreach yn dal i ganolbwyntio ar ddarparu buddion y model newydd. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ni sicrhau ein bod yn dal yn fodlon bod y model yn mynd i'r afael â'n pryderon o ran cystadleuaeth a'i fod o fudd i'r farchnad gyfan. O ystyried pwysigrwydd y dasg hon i'r model cyffredinol, rydym yn disgwyl i Uned Fonitro newydd Openreach gyflawni'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth.

Mae'r model newydd yn taro cydbwysedd rhwng rhagor o annibyniaeth i Openreach a chynnal llywodraethu corfforaethol priodol o fewn BT Group, yn gyson â'i safle fel cwmni rhestredig cyhoeddus. Mae'r Ymrwymadau yn nodi'n glir am beth fydd Bwrdd a Gweithrediaeth Openreach yn gyfrifol, gan gynnwys strategaeth a pherfformiad. Mae hefyd yn caniatáu i Openreach a BT Group ryngweithio rhwng ei gilydd, sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni dyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddiol BT Group.

Mae Ymrwymadau BT hefyd yn cynnwys gofynion adrodd a thryloywder ychwanegol i alluogi monitro effeithiol a rhagweithiol o'r model newydd. Mae tryloywder a monitro o'r fath yn hanfodol ar gyfer sicrhau nad oes modd i BT Group ddefnyddio'r rhyngweithio angenrheidiol rhwng Openreach a BT Group fel ffordd o gael dylanwad amhriodol. Yn ogystal â monitro uniongyrchol gan Ofcom, bydd gan Openreach a BT Group gyrrff cydymffurfio at y diben hwn.

Byddwn yn mabwysiadu system dair haen ar gyfer monitro'r model newydd, a fydd yn ymwneud â gweithrediad BT, cydymffurfiaeth â'r trefniadau llywodraethu ffurfiol newydd, ac ystyried sut mae'r model newydd yn cefnogi canlyniadau da i ddefnyddwyr, busnesau a darparwyr cyfathrebiadau. Trafodir ein dull yn fanylach yn Adran 6.

- 1.3 Byddwn yn cynhyrchu cyfres o adroddiadau blynyddol – bob chwe mis yn ystod y flwyddyn gyntaf – yn manylu ar ein gwaith monitro ac adrodd. Bydd yr adroddiadau hyn yn asesu cydymffurfiaeth BT ac Openreach â'r Ymrwymadau a'r Protocol Llywodraethu, gan gynnwys unrhyw bryderon sy'n deillio o fethiannau amlwg gan BT neu Openreach i gydymffurfio â rhwymedigaethau'r Ymrwymadau.
- 1.4 Fel y dangosir yn Figure 2 isod, bydd hyn yn cynnwys asesiad o brofiad cwsmeriaid o Openreach wrth wneud cais am gynnyrch a gwasanaethau newydd gan y cwmni, er enghraifft drwy'r broses ymgynghori â chwsmeriaid newydd, a'r canlyniadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau Openreach.

Ffigur 2: Meysydd monitro

Maes monitro	Amcan	Dulliau/metrigau allweddol
1. Gweithredu	Sicrhau bod pob agwedd ar y trefniant newydd yn cael ei gweithredu'n brydlon	Hysbysiadau gan BT pan gyrhaeddir cerrig milltir

Maes monitro	Amcan	Dulliau/metrigau allweddol
2. Trefniadau llywodraethu	Sicrhau bod BT ac Openreach yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethu newydd	<ul style="list-style-type: none"> • Rhyngweithio rhwng y Prif Weithredwyr • Dyletswyddau Bwrdd Openreach, y Weithrediaeth a'r Prif Weithredwr • Prosesau i Lunio AOP/MTP drafft, eu hadolygu a'u cymeradwyo • Prosesau ymgysylltu â chwsmeriaid • Penodi i'r Bwrdd • Adroddiadau ariannol Openreach
3. Annibyniaeth a thrin cwsmeriaid yn gytbwys	Sicrhau bod y model newydd yn cyflawni amcanion polisi ehangach: Openreach yn gweithredu'n annibynnol ac yn trin cwsmeriaid yn gytbwys	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer yr ymgynghoriadau a'r camau a gyrhaeddwyd (cyfrinachol, cyhoeddus, ymrwymedig); • Cynnig cynnyrch a gwasanaethau newydd; • Syniadau buddsoddi newydd a / neu fodelau masnachol ar gyfer buddsoddi • Nifer y cynigion a gymeradwywyd ac a wrthodwyd, a rhesymeg gymharol; • AOP / MTP y cytunwyd arnynt yn derfynol, ac adroddiadau ariannol Openreach a BT gan gynnwys lefelau buddsoddi, CAPEX ac OPEX • Barn cwsmeriaid Openreach

Canlyniadau ehangach i ddefnyddwyr, busnesau a darparwyr cyfathrebiadau

Rydym yn disgwyl y dylai hysbysiad BT ddarparu ateb effeithiol a hirdymor i'n pryderon o ran cystadleuaeth. Bydd llwyddiant yr hysbysiad yn dibynnu ar ymddygiad BT Group ac Openreach, a'u hymrwymiad i'r model hwn. O ystyried natur yr hysbysiad, bydd yn hanfodol ein bod yn adolygu ac yn craffu'n fanwl ar berfformiad a llwyddiant y model, gan ymyrryd os bydd angen, a chaniatáu iddo fwrw gwreiddiau ar yr un pryd.

Mae Openreach mwy annibynnol yn un o elfennau ein strategaeth ehangach i sicrhau canlyniadau band-eang gwell i ddefnyddwyr a busnesau. Dyma bedair elfen allweddol arall:

- cystadleuaeth pen-i-ben a buddsoddi parhaus gan gyfranwyr o bob rhan o'r sector cyfathrebu, gan gynnwys Openreach;
- camau rheoleiddio parhaus i hybu buddsoddi cystadleuol, ansawdd a phrisio effeithlon. Mae camau o'r fath yn cynnwys ehangu mynediad i bolion a phibellau, prisiau wedi'u rheoleiddio yn yr adolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol, a lefelau gwasanaeth sylfaenol;
- polisi cyhoeddus i sicrhau'r argaeledd gwasanaethau ehangaf posibl, er enghraifft cefnogi polisi Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band eang y Llywodraeth neu weithredu rhwymedigaethau darpariaeth symudol mewn trwyddedau sbectrum; a
- diogelwch cyffredinol i ddefnyddwyr, er enghraifft iawndal awtomatig pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Rydym am weld marchnad gystadleuol sy'n parhau i ffynnu, gan gefnogi ansawdd gwasanaethau a band-eang gwell i ddefnyddwyr a busnesau. Mae Openreach

ymatebol ac effeithiol yn hanfodol ar gyfer hyn. Gan ddefnyddio ein gwaith monitro, byddwn yn ystyried i ba raddau mae'r Openreach newydd yn llwyddo i wneud y canlynol:

- ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i anghenion ei gwsmeriaid, er enghraifft datblygu cynnyrch a gwasanaethau cyfanwerthol newydd;
- arwain y gwaith ymgysylltu â'r diwydiant ar raglenni buddsoddi rhwydwaith strategol mawr er mwyn darparu gwasanaethau gwell i ddefnyddwyr a busnesau; ac
- ystyried modelau a pherthnasoedd masnachol newydd i gefnogi buddsoddiad ac ansawdd parhaus, gan gynnwys dulliau megis cydfuddsoddi a rhannu risg, ac ymgysylltu â'i gwsmeriaid ynghylch hynny.

Ynghyd â'n strategaethau a'n camau rheoleiddiol ehangach, bydd y diwygiadau hyn i Openreach yn cefnogi darparu gwasanaethau gwell, a hynny'n fwy dibynadwy ac am gost resymol i ddefnyddwyr a busnesau. Er mwyn deall sut mae strategaeth reoleiddiol ehangach yr Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol a'r diwygiadau hyn yn cyfrannu at ganlyniadau o'r fath, byddwn yn adrodd ar ystod eang o ganlyniadau i ddefnyddwyr a busnesau, megis ansawdd gwasanaethau, cyflymderau band eang, prisiau, argaeledd a buddsoddiadau. Bydd hyn yn cyd-fynd â monitro manwl Openreach, ac yn ei ddefnyddio, yn ogystal â chyhoeddiadau arferol eraill Ofcom.

Darperir rhagor o fanylion am sut byddwn yn adrodd ar y canlyniadau hyn yn Adran 7.

Llwyddiant yr ymyriad hwn a'r camau a gymerwn os yw'n ymddangos ei fod yn methu

Efallai y bydd rhai o'r canlyniadau a gefnogir gan y newidiadau hyn i Openreach, a'n strategaeth reoleiddio ehangach, yn cymryd hwy i'w sicrhau, megis buddsoddiadau ar raddfa fawr lle mae cyfnod cyn cwblhau hwy ar gyfer darparu seilwaith mawr newydd. Ar yr un pryd, dylai gwelliannau eraill, gan gynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â chwsmeriaid, ddod i'r amlwg yn gynt. Rydym yn credu y bydd i ba raddau y mae'r model newydd yn llwyddo ar gyfer defnyddwyr a busnesau yn dod yn amlwg cyn pen tair blynedd ar ôl ei roi ar waith. Bydd y gwaith monitro ac asesu yn dechrau ar unwaith.

Bydd mesur llwyddiant cyffredinol hysbysiad BT yn dibynnu ar asesiad eang o weithrediad, cydymffurfiaeth a'r buddion i ddefnyddwyr, busnesau a chwsmeriaid darparwr cyfathrebiadau Openreach. Gallai'r arwyddion nad yw'r model yn cyflawni ei lawn botensial gynnwys torri cydymffurfiaeth mwy nag un tro, methu ymgorffori'r ymddygiadau disgwylidig yn Openreach a BT, neu heriau o ran gweithredu'r model yn effeithiol.

Bydd ymateb Ofcom i unrhyw achosion posib o fethu cydymffurfio â threfniadau gwirfoddol BT yn dibynnu ar natur, difrifoldeb am amlder y methiant dan sylw.

- Pan fydd y problemau yn rhai mân, mae'r model hwn yn caniatáu amrywiadau, a byddwn yn ymgysylltu â BT i geisio gwelliannau; efallai y byddwn hefyd yn argymhell yn ein hadroddiadau cyfnodol sut gall yr endidau ar wahân wella eu cydymffurfiaeth.

- Os bydd cydymffurfiaeth yn cael ei dorri'n ddifrifol neu dro ar ôl tro, neu ei fod yn dod yn amlwg nad yw'r model gwahanu cyfreithiol hwn yn gweithio'n gyffredinol, bydd angen i ni ailystyried ein safiad ar ymyriadau ffurfiol er mwyn mynd i'r afael â'n pryderon o ran cystadleuaeth. Gallai hyn arwain at Ofcom yn rhoi gwybod i BT nad yw'r trefniadau newydd o dan yr Ymrwymadau yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny mwyach, ac o ganlyniad bod angen i ni ddechrau ystyried gorfodi ateb rheoleiddiol, a allai gynnwys gwahanu strwythurol.

Yn ogystal â'r ymatebion hyn sy'n ymwneud â'r Ymrwymadau a'r Protocol Llywodraethu, mae gennym hefyd bwerau ategol clir ac uniongyrchol er mwyn gorfodi mewn achosion o dorri'r amodau rheoleiddio yr ydym wedi eu gorfodi er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon o ran cystadleuaeth – er enghraifft yng nghyswllt ansawdd gwasanaethau – mewn marchnadoedd lle mae gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad. Mae'r rhain yn cynnwys gosod cosbau ariannol a chyfarwyddo BT i gymryd camau i sicrhau bod unrhyw achosion o dorri o'r fath yn cael eu cywiro'n briodol.